Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Foel Gron

**Mynytho
Pwllheli
Gwynedd
LL53 7RN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Foel Gron

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Foel Gron |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 32 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 24 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 17.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 12.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 50.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/10/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Foel Gron yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth amlwg i les a dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth wedi sefydlu awyrgylch deuluol glòs sy'n hyrwyddo diwylliant o gydweithio cyson rhwng staff yn llwyddiannus. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n briodol gan y corff llywodraethol sy'n cefnogi arweinwyr i adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r pennaeth yn cydweithio a chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni sy'n meithrin naws gartrefol yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion lles a dysgu pob disgybl. Maent yn defnyddio gwahanol ffynonellau'n effeithiol i drefnu cefnogaeth sydd wedi ei theilwra i ddiwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas waith gefnogol â disgyblion sy'n cyfrannu'n dda at feithrin eu lles, dysgu a'u hunanhyder.

Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau diddorol sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd perthnasol yn eu medrau. Yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella medrau darllen Saesneg y disgyblion, a'u gallu i ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gynyddol wrth ddatblygu eu medrau darllen Saesneg ac wrth iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd i ddatrys problemau mewn cyd-destunau amrywiol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'r holl fedrau mewn ystod o brofiadau dysgu cyfoethog yn yr ardaloedd allanol.

Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn barod i ddysgu. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig, yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu at drafodaethau'n aeddfed. Erbyn brig yr ysgol, mae'r disgyblion yn ymateb yn briodol i adborth athrawon ac yn gwneud gwelliannau addas i'w gwaith. Er hyn, nid yw disgyblion yn deall bob tro beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu, sydd yn ei dro yn arafu eu cynnydd. Mae llawer yn gweithio'n gynyddol annibynnol ac yn datblygu eu gallu i wneud dewisiadau dros eu gweithgareddau yn briodol. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatbygu eu medrau mewn profiadau dysgu cyfoethog yn yr ardaloedd allanol

A2 Gwella dealltwriaeth disgyblion o'r camau nesaf yn eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion fedrau sy'n cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu gallu a'u cam datblygu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da mewn ystod eang o fedrau.

Mae medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan bron bob disgybl iaith lafar dda, ac y maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg. Maent yn cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae bron bob disgybl yn gwrando'n astud mewn sesiynau stori ac yn trafod ac adalw storïau y maent wedi'u clywed yn aeddfed. Wrth symud trwy'r ysgol, mae medrau llafar bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn yn effeithiol, ac yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith amrywiol i gynnal diddordeb.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio gwybodaeth ffonolegol i ddarllen testunau, ac yn cyfeirio at gymeriadau o fewn storïau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin llyfrau yn hyderus, ac yn dangos mwynhad a phleser wrth ddarllen llyfrau ffeithiol ar draws ystod o destunau ffeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl a hyderus, sy'n defnyddio goslef llais a mynegiant priodol yn y ddwy iaith. Maent yn crynhoi testunau ffeithiol yn bwrpasol, yn dangos dealltwriaeth gadarn ac yn adalw gwybodaeth yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau cwis Mastermind Darllen fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron bob disgybl yn ysgrifennu testunau ffeithiol yn briodol, er enghraifft wrth nodi cylch bywyd pengwin. Mae llawer o ddisgyblion yn sillafu'n briodol gan ddefnyddio berfau ac ansoddeiriau addas wrth ysgrifennu hysbyseb am fforiwr. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu'n effeithiol ar draws ystod o ffurfiau ac at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog yn y ddwy iaith. Maent yn mynegi barn yn effeithiol, gan nodi rhesymau ystyrlon, er enghraifft wrth drafod a ddylai anifeiliaid gael eu defnyddio yn y syrcas.

O oedran cynnar, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle, ac yn cymhwyso'u medrau er mwyn trefnu rhifau yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen a nodi tymheredd ar thermomedr, yn mesur hyd, a defnyddio mesurau safonol wrth bwyso yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif a dulliau cyfrifo. Mae bron bob disgybl yn cymhwyso'r medrau hyn mewn gweithgareddau ymarferol yn y dosbarth, er enghraifft wrth gyfrifo costau ar gyfer trefnu taith syrcas i Iwerddon.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau digidol yn hyderus i gael mynediad i apiau er mwyn cefnogi eu gwaith. Mae bron bob disgybl yn cyflwyno gwaith prosesu geiriau yn effeithiol i rannu gwybodaeth, er enghraifft wrth adnabod bwydydd fel rhan o ddathliadau’r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Erbyn brig yr ysgol, mae’r disgyblion yn defnyddio ystod o raglenni ac apiau yn gynyddol hyderus er mwyn cofnodi a chyflwyno eu gwaith, sy’n cynnwys rhannu stori ddychmygol am ardal Mynytho. Er hynny, nid yw medrau disgyblion i lunio cronfeydd data a thaenlenni i gofnodi data wedi eu gwreiddio i’r un graddau.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu’n dda. O oedran cynnar, mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o ddeunyddiau yn effeithiol i gynhyrchu gwaith celf atyniadol, er enghraifft wrth greu modelau 3D o anifeiliaid ar draws y byd. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth arbrofi â ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth ddefnyddio paent dyfrlliw er mwyn creu darnau celf ar gyfer Eisteddfod Mynytho. Mae’r disgyblion wedi cydweithio’n effeithiol ag arlunydd lleol i gynhyrchu murlun deniadol sy’n rhannu arwyddair yr ysgol.

Mae datblygiad corfforol llawer o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol, er enghraifft wrth i’r disgyblion ieuengaf greu modelau clai yn grefftus. Mae’r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau nofio, medrau pêl a chwaraeon yn effeithiol yn ystod sesiynau dysgu yn y gampfa leol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae medrau lles bron bob disgybl yn datblygu’n dda iawn. Mae’r amgylchedd hapus a chroesawgar yn cyfrannu’n dda at sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae perthnasoedd gwaith cynnes a phwrpasol rhwng oedolion a disgyblion yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth. Mae balchder disgyblion tuag at eu hysgol yn amlwg. Mae disgyblion hynaf yn datblygu i fod yn ddisgyblion aeddfed a chyfrifol sy’n ofalgar iawn o’r disgyblion ieuengaf. Daw hyn i’r amlwg yn ystod amseroedd egwyl, ac wrth deithio ar y bws i’r gampfa leol yn wythnosol. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda tu fewn a thu allan i’r ystafelloedd dosbarth ac yn dangos agwedd barchus at eraill.

Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth o ran diet a byw’n iach. Mae bron bob un yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau corfforol i wella eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw’r corff yn iach. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu’n eiddgar i wythnos beicio i’r ysgol wrth iddynt deithio’n ddyddiol ar eu sgwteri a’u beiciau. Mae’r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n ddiogel ar-lein, er enghraifft wrth greu poster i hyrwyddo e-ddiogelwch ar gyfer cystadleuaeth leol.

Mae bron bob disgybl yn cael cyfleoedd buddiol yn ystod eu hamser yn yr ysgol i gynrychioli eu cyfoedion ar y cyngor ysgol. Maent yn cefnogi gwaith yr ysgol yn briodol, er enghraifft wrth drefnu digwyddiadau ac achlysuron codi arian i elusennau, a phenderfynu sut i greu marciau ar y buarth. Er hyn, nid yw llawer o ddisgyblion yn cyfranogi’n ddigon cyson wrth ddylanwadu a gweithredu ar waith ehangach yr ysgol. Maent yn cyfrannu’n briodol i fywyd y gymuned leol, er enghraifft wrth i’r disgyblion groesawu aelodau o’r gymuned i’w gwasanaeth Gŵyl Ddewi.

Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn ymateb yn llwyddiannus i arweiniad staff i gwblhau tasgau ac yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau dosbarth. Yn nosbarth y disgyblion ieuengaf, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dyfalbarhau'n ddygn wrth chwilio am lythrennau i adeiladu geiriau yn y twba blociau. Maent yn dylanwadu'n dda ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu ac yn arwain sesiynau dysgu yn feistrolgar wrth ddangos diddordeb mewn darganfod mwy am anifeiliaid ar draws y byd, er enghraifft. Wrth iddynt ddatblygu drwy'r ysgol, mae llawer yn adeiladu'n briodol ar eu medrau i weithio'n annibynnol ac yn magu hyder wrth gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus mewn grŵp ac yn barod iawn i ddysgu oddi wrth ei gilydd, er enghraifft wrth ddatrys problemau wrth greu cyflwyniadau am anifeiliaid Patagonia.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn effeithiol i adborth athrawon ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol er mwyn gwella eu gwaith. Er enghraifft, i wella sillafu ac wrth ailddrafftio. Mae targedau priodol gan amlaf wedi eu pennu ar gyfer nodi'r ffordd ymlaen i ddisgyblion mewn medrau iaith a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u targedau nac wedi'u perchnogi'n ddigon effeithiol er mwyn symud y dysgu ymlaen.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu ystod o weithgareddau ysgogol ar gyfer disgyblion ac yn cynnig profiadau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae awgrymiadau a thueddiadau disgyblion yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gynnal arbrawf gwyddonol yn seiliedig ar ffrwydrad folcanig cyfredol yng Ngwlad yr Iâ. O ganlyniad, mae cymhelliant ac agwedd y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gyson dda.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion i gaffael eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er mwyn datblygu eu medrau yn briodol. Mae staff yn dechrau monitro a mapio'r ddarpariaeth ar gyfer cyflawni egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o amrywiaeth mewn cymdeithas, er enghraifft am leiafrifoedd ethnig a pherthnasoedd a theuluoedd gwahanol.

Darperir cyfleoedd bwriadus gan athrawon i gyfoethogi gweithgareddau'r cwricwlwm i ddisgyblion trwy wahodd ymwelwyr i rannu eu profiadau, a threfnu cyfleoedd buddiol iddynt gydweithio ag artistiaid a beirdd lleol. Maent yn cynnig profiadau cyfoethog i ddisgyblion ymweld â'u hardal leol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn dda, er enghraifft wrth ddysgu am y dolydd morwellt a'r ffynonellau egni gwyrdd cyfagos. Ar adegau, mae staff yn gwneud defnydd priodol o'r ardaloedd allanol sydd ar dir yr ysgol fel adnodd i atgyfnerthu profiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn ddigon cyfoethog nac yn cael ei defnyddio'n ddigon cyson i ddatblygu ystod lawn o fedrau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau sy'n bodloni gofynion gallu a cham datblygu disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. Trwy hyn, mae staff yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i'r cwricwlwm. Mae'r staff yn siarad Cymraeg yn gywir, ac yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n adalw dysgu blaenorol disgyblion yn

bwrpasol. Mae ethos Cymreig cryf yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd naturiol o'r Gymraeg ac yn datblygu'n ddisgyblion dwyieithog hyderus. Yn ogystal, erbyn brig yr ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau iaith Sbaeneg sy'n eu cefnogi wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd gyfagos.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ac at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau cyfoethog i'r disgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr o ddiolch i ymwelydd â'r ysgol. Datblygir medrau rhifedd disgyblion yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ystyried a yw'r pellter rhwng gwrthrych a ffynhonnell olau yn cael effaith ar faint cysgod.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cefnogi'r disgyblion wrth eu gwaith yn hynod effeithiol. Mae parch amlwg ac ethos gofalgar a chynhwysol yn amlwg trwy'r ysgol. Mae'r amgylchedd cynhaliol yn cefnogi'r dysgu yn dda, gydag ardaloedd dysgu trefnus ac arddangosfeydd effeithiol ar draws yr ysgol yn dathlu cyflawniad a llwyddiant disgyblion. Mae'r tasgau a'r gweithgareddau yn ardaloedd dysgu y tu fewn i'r ysgol yn cael eu cynllunio'n fwriadus ac yn galluogi disgyblion i adeiladu ar eu medrau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu'r holl fedrau mewn profiadau dysgu cyfoethog yn yr ardaloedd allanol.

Mae staff yn darparu adborth llafar effeithiol yn ystod gweithgareddau er mwyn symud y dysgu ymlaen, a sicrhau dealltwriaeth o'u gwaith. Mae athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig pwrpasol sy'n nodi agweddau o waith sydd angen eu gwella. Yn gyffredinol, mae athrawon yn pennu targedau priodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Er hynny, nid yw'r targedau'n cael eu hadolygu'n ddigon cyson a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb iddynt. O ganlyniad, mae hyn yn arafu ychydig o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r berthynas waith agos sydd rhwng y staff a'r disgyblion yn arwain at gymuned ofalgar a theuluol sy'n sicrhau bod bron bob disgybl yn falch o'u hysgol. Mae'r ethos cyfeillgar a chynnes yn cefnogi'r ymdeimlad o berthyn ac yn annog pawb i ymrwymo'n llawn i'r gofal a roddir i'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif ac yn gynhaliol i'w hanghenion emosiynol a lles.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac mae'n darparu cefnogaeth lwyddiannus iddynt. Mae gan y cymorthyddion ddealltwriaeth gadarn o gynlluniau cefnogi amrywiol ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gelfydd i gynllunio a theilwra rhaglenni cefnogi sy'n ymateb i anghenion unigolion disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth yn cael ei chynnig yn amserol ac, o ganlyniad, mae bron bob disgybl sydd ag anghenion yn gwneud cynnydd da. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag amrywiaeth o bartneriaethau ac asiantaethau er mwyn cefnogi'r disgyblion, er enghraifft wrth gydweithio â thîm nam

ar y golwg a thîm anghenion dysgu penodol. Mae staff yn adolygu cynnydd disgyblion ADY yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu'n gyson.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol, eu diwylliant a'u treftadaeth. Mae ymweliadau buddiol i fynydd y Foel Gron yn cefnogi eu dealltwriaeth o'u hardal yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau o fewn y thema 'Gair mewn Gwlân' wedi gwella eu hadnabyddiaeth o ffynhonnau lleol yn llwyddiannus. Mae ymweliadau preswyl i Gaerdydd yn ehangu gorwelion y disgyblion hynaf yn effeithiol. Datblygir Cymreictod y disgyblion yn dda trwy wahodd cwmni drama i'r ysgol i berfformio cyflwyniad o William Morgan, er enghraifft. Trwy hyn, darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio gydag actorion Cymreig sy'n cyfrannu'n gadarn at eu hyder i berfformio yn unigol ac fel grŵp.

Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach, gan gynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn datblygu'n addas. Mae'r ysgol yn gwella gwybodaeth disgyblion am eu hawliau wrth drafod hawl yr wythnos mewn gwasanaethau, ac maent yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol trwy ddysgu cân sy'n sôn am eu hawliau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyd-addoli, myfyrio ac i ganu ar y cyd. Mae disgyblion yn dangos parch a gofal at eraill yn ystod y cyfnodau buddiol hyn, sy'n adlewyrchu ethos a gwerthoedd yr ysgol yn dda, ac yn cryfhau balchder disgyblion yn eu hysgol. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am Gristnogaeth mewn gwasanaethau ac wrth gynllunio i'r disgyblion hynaf ysgrifennu erthygl papur newydd ddiddorol am y croeshoeliad. Caiff y disgyblion gyfleoedd addas i ddysgu am gredoau crefyddau eraill fel Hindŵaeth ac Islam.

Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion y cyngor ysgol gyfarfod a thrafod gwaith yr ysgol. Yn eu sesiynau, maent yn gwneud penderfyniadau sy'n cyfrannu'n addas at ystod foddhaol o weithgareddau fel codi arian at wahanol elusennau. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at allu'r disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol sy'n dangos empathi at eu cyd-ddyn.

Mae trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf ac mae systemau cadarn ar waith i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae disgwyliadau uchel y pennaeth ynghyd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng y staff yn nodwedd gref o'r ysgol wledig hon. Gyda'i gilydd, maent wedi sefydlu awyrgylch deuluol glòs, maent yn ofalgar o'r disgyblion ac yn llwyddo i feithrin disgyblion parchus a hyderus sy'n hapus yn y dosbarth ac yn barod i ddysgu. Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg i'r ysgol. Mae arweinwyr wedi cydweithio'n dda â holl aelodau'r gymuned ysgol i greu gweledigaeth sydd â'r nod o greu cwricwlwm sy'n cynnig amrywiaeth o brofiadau diddorol.

Mae gan yr arweinwyr ystod o weithdrefnau buddiol er mwyn adnabod ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella yn briodol. Maent yn ystyried gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau ac yn defnyddio'r canfyddiadau'n synhwyrol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar safonau'r disgyblion wrth wella eu medrau darllen Saesneg yn ogystal â'u cefnogi i gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau amrywiol yn drawsgwricwlaidd.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad staff yn hyrwyddo eu dysgu proffesiynol yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu ar bob lefel. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel ysgolion ardal er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddulliau cynllunio sy'n bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru. Yn dilyn hyfforddiant dalgylch ar wella medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, mae'r athrawon yn cynllunio'n fwy bwriadus ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu ar y rhaglen hyfforddiant a'r dysgu proffesiynol sydd ei angen. Maent yn plethu eu hyfforddiant i gyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol, ac o ganlyniad, gwelir datblygiad sylweddol mewn agweddau megis lles, a chefnogaeth ADY.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn dda ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau addysg gynhwysol i ddisgyblion. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd gofalu am les y pennaeth a'r staff ac wedi sefydlu is-bwyllgor penodol er mwyn cyflawni hyn. Mae'r llywodraethwyr yn cael gwybodaeth werthfawr gan y pennaeth am waith yr ysgol, ac yn dechrau dychwelyd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol. Yn dilyn trafodaethau diweddar, dangosodd aelodau'r corff bryder mewn gostyngiad sydyn yn y ganran presenoldeb. O ganlyniad, ychwanegwyd blaenoriaeth frys er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwyd a diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a threfniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau, sy'n cynnwys rhai ariannol. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn ddarbodus, gyda'r corff llywodraethol yn ei monitro'n briodol. Maent yn sicrhau gwariant pwrpasol y cyllid trwy fuddsoddi mewn adnoddau i wella ansawdd yr adeilad a'r amgylchedd dysgu. Maent yn gwneud defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi disgyblion penodol. Mae'r aelodau'r corff yn hybu diwylliant diogelu ac yn hyrwyddo darpariaeth iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder amlwg. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu cyson yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gryfhau'r ymdeimlad cymunedol clòs sy'n perthyn i'r ysgol hon.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2024